# y dinesydd

Rhagfyr/Ionawr 1998/99 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 242


# Eisteddfota yng Nghaerdydd

## EISTEDDFOD GYNTAF SAIN FFAGAN

Eleni, fel y gŵyr y darllenwyr, rwy'n siŵr, y mae Amgueddfa Werin Cymru yn dathlu 50 mlynedd ei sefydlu, ac fel rhan o'r gweithgareddau cynhaliwyd eisteddfod gadeiriol yn neuadd Institiwt y Gweithwyr, Oakdale, ar y safle, ddydd Sadwrn, 21 Tachwedd. Dyma'r eisteddfod gyntaf o'i bath a chafwyd cystadlu brwd o ganol dydd hyd un ar ddeg yr hwyr. Derbyniwyd hefyd dros 200 o gyfansoddiadau llenyddol a bron 100 o eitemau celf a chrefft.

Ysgol Glantaf a enillodd gystadleuaeth y Côr Plant, a Merched Canna, Caerdydd, a enillodd gystadleuaeth y Côr Agored. Merched a bechgyn ar staff yr Amgueddfa oedd buddugwyr y Parti Agored. Llongyfarchiadau cynnes iawn i bawb.

Amgueddfa Werin Cymru oedd testun y gadair, a'r enillydd oedd T. Gwynn Jones, Abergwaun, yn enedigol o Gorwen. Rhoes y beirniad, Islwyn Jones, glod arbennig i'w gyfres o dribannau. Dyma'r ddau olaf.

Nid bedd Sain Ffagan mwyach,
Ond coleg addysg bellach;
Man clymu'r ddoe a'r heddiw 'nghyd,
Man hyfryd pob cyfeillach.

Yma mae pob cynhysgaeth,
Yma y mae ein hiraeth;
Fe erys fyth yn gadarn dŵr
I ŵr y weledigaeth.

Gwnaed y gadair fechan a'r cwpanau pren gan Gwyndaf Breese, un o grefftwyr yr Amgueddfa.

Amcan Amgueddfa Werin Cymru yw adlewyrchu diwylliant gwerin yn ei gyfanrwydd, y materol a'r ysbrydol, a chredaf y byddai 'gŵr y weledigaeth', y Dr Iorwerth Peate, wedi bod yn falch iawn o eisteddfod gyntaf Sain Ffagan. Felly hefyd ei gydweithiwr, Ffransis G Payne. Dyna oedd testun soned fuddugol y Parchg Denzil I. John sy'n cloi â'r llinellau hyn:

Braenarodd dir ein deall gyda'i ddawn
A'n galw ni i fedi sgubor lawn.

Llywyddion yr Eisteddfod oedd Phyllis Kinney a'r Dr Meredydd Evans.

Ar ran fy nghydweithwyr carwn ddiolch o galon i bawb a sicrhaodd lwyddiant eisteddfod gyntaf yr Amgueddfa Werin, yn arbennig y cystadleuwyr, yr hyfforddwyr, y cefnogwyr, yr Ysgrifenyddion: Meinwen Ruddock ac Elaine Roszkowska, a'r Trysorydd: Meinir Williams.

Croeso cynnes iawn i bawb i'r eisteddfod y flwyddyn nesaf, **Sadwrn, 20 Tachwedd 1999.** A dyma raghysbysiad i'r beirdd. Testun y gadair yw: 'Cymry'r Ugeinfed Ganrif ': Dilyniant o Benillion Telyn.

**Robin Gwyndaf**



Robin Gwyndaf, y trefnydd, gyda llywyddion yr Eisteddfod, Phyllis Kinney a'r Dr Meredydd Evans, yn edmygu gwaith Cathrin Davies, Fferm Llwynfan, Llangennech a enillodd y wobr gyntaf am greu model o un o'r adeiladau yn Amgueddfa Werin Cymru. Mae Cathrin yn ddisgybl yn Ysgol y Strade, Llanelli. Llun: Robin Griffith

## Eisteddfod Gyntaf y Mileniwm i Gaerdydd

Daeth nifer dda i Glwb Rygbi Caerdydd ddechrau Tachwedd i drafod y syniad o wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Gaerdydd yn 2001. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Huw Llywelyn Davies a chafwyd gair gan Eurig Davies, Is-gadeirydd Cyngor yr Urdd cyn i Deian Creunant, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau roi amlinelliad o'r gweithgareddau a'r goblygiadau. Pasiwyd yn unfrydol i wahodd yr Eisteddfod.

Gyda chymaint i'w wneud mewn cyn lleied o amser, y bwriad yw bwrw'r cwch i'r dŵr a chychwyn ar y gwaith yn fuan yn y flwyddyn newydd gan gynnal cyfarfodydd achlysurol o hynny ymlaen. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd 2001 mewn unrhyw ffordd, cwblhewch y ffurflen ar dudalen 11 a'i dychwelyd i'r cyfeiriad a nodir yno.

**Cyfarchion y tymor i'n holl ddarllenwyr**

# Y Dinesydd

**Rhagfyr/Ionawr 1998/99, Rhif 242.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd.*
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Chwefror at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 20 Ionawr:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333080)
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Mrs Siriol Wilde, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499)
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 01222-623749)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £_________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd.*

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

................................................ Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................


................................................ Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 4** **Rhag./Ion. 1998/99**



**Ar Draws**

| | | |
|---|---|---|
| 1,3,16. | '..... ..... ddydd i'w ..... Geni Seilo, gorau swydd' (Anad) | 5,7,5 |
| 7. | 'Ac er ..... ..... gwael Roed iddo'n gôl, Daeth Crist i Fethlehem 'Mhell, bell yn ôl' (cyf. J H) | 3,6 |
| 8. | Diwedd cant oddeutu'r cyntaf o Ragfyr | 5 |
| 9. | Dyn y glaw a Gŵyl ei hunan | 4 |
| 10. | 'Awn i Fethlem, bawb, dan ..... Neidio, dawnsio a difyrru' (Rh P) | 4 |
| 17. | Addurniadau gloyw yn tyfu'n wyllt efallai | 4,5 |
| 18. | Effaith gorwario dros yr Ŵyl? | 7 |
| 19. | Gofid hanner cant claf | 5 |

**I Lawr**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhaglen y goreuon! | 6,2,5 |
| 2. | Un lle it droi i un ochr | 6 |
| 3. | A'r dasg ddyrys yw i ddal yr hosan i fyny | 6 |
| 4. | Sarnicol yn colli ei nod a mynd yn amheus | 6 |
| 5. | Aderyn ar ei ben yn y cwmni boreol | 5 |
| 6. | '..... ..... ..... heno'r wyt Daw golau penna'r nef' (B D) | 2,6,5 |
| 7. | Siglen, neu arf o'm gwneuthuriad | 5 |
| 11. | Drysu Dan a'r dosbarth | 5 |
| 12. | Marc yn dilyn y geni rhyfedd yn ddyfal | 6 |
| 13. | Di-eisiau yw bod yn ofnus yn Lloegr | 6 |
| 14. | Un wedi gorfwyta a'i golbio o gwmpas | 6 |
| 15. | Trochiad dyn anghyflawn mewn twll | 5 |

**Atebion Croesair 3 (Tachwedd 1998)**
**Ar Draws:** 2.Asgell; 5.Clas; 7.Aber; 8.Anwastad; 9.Goresgyn; 11.Galw; 12.Anwareiddiedig; 15.Rhaid; 17.Cernyweg; 19.Fore glas; 21.Dadl; 22.Glaw; 23.Odlau.
**I Lawr:** 1.Heb boen; 2.Awr; 3.Gwasg; 4.Llawenydd; 5.Cas; 6.Anaml; 10.Enaid; 11.Gwely; 13.Encilio; 14.Iselder; 16.Arogl; 18.Rasal; 20.Elw; 21.Dau.

**Croesair Rhif 2 (Hydref 1998)**
Enillydd y tocyn llyfrau y tro hwn oedd Buddug Roberts, 14 Coryton Crescent, Yr Eglwys Newydd. Derbyniwyd atebion cywir hefyd gan Eira M. Jones, Y Mynydd Bychan; Mair Morgan, Treganna; E. Haydn Jones, Rhiwbina; Gwenda Hopkins, Llanisien; T. A. Owen, Abertawe; a Huana Simpson, Y Bont-faen.
**Croesair Rhif 3 (Tachwedd 1998)**
Dim ond 3 ymgais hollol gywir a dderbyniwyd y tro yma. Danfonir y tocyn llyfrau at Heledd Hall, 14 Wyndham Road, Treganna. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Buddug Roberts a Gwenllian Gwyn Jones, y ddwy o'r Eglwys Newydd.

**Cystadleuaeth Rhagfyr/Ionawr 1998/99**
Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 20 Ionawr.

## Calendr y Dinesydd

**Mercher, 6 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Euros Rhys Evans yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Mercher, 6 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Dathlu'r Hen Galan gydag aelodau Cwmni Dawns Werin Caerdydd, yn festri Eglwys y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.
**Gwener, 8 Ionawr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson yng nghwmni 'Jac a Wil' (Gwion Lewis a Bill Davidson), yn neuadd Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Gwener, 8 Ionawr**
Cymry'r Wenallt: Cinio Blynyddol, yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd, Heol Felindra, am 8 p.m.
**Llun, 11 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Hen Ddoliau' gan Beryl Williams, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Llun, 11 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Ceilys yng Nglanfa Iwerydd, Bae Caerdydd, am 7.30 p.m.
**Mercher, 13 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen y Garth: Dathlu'r Hen Galan yn nhafarn y Kings, Pen-tyrch, am 8p.m.
**Iau, 14 Ionawr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Sgwrs gan yr Athro Howard Evans: 'Dylanwadau o'r Mynydd Du i'r Mynydd Bychan'. Cysyllter â Valmai Evans (612104)
**Gwener, 15 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Crwydro'n Ysbrydoli' gan Rhiain Phillips yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Llun, 18 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson yng nghwmni Dudley Newbery yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 18 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Troi'r Marw'n Fyw'. Darlith gan yr Athro Glyn O. Phillips yn festri Eglwys y Crwys am 7.30 p.m.
**Mawrth, 19 Ionawr**
Cymrodorion y Barri: Darlith ar Gwilym R. Jones, Dinbych gan W. I. Cynwil Williams, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Mercher, 20 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan W. J. Jones yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Mercher, 20 Ionawr**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Moelwyn D. Preece yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.
**Gwener, 29 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Noson Santes Dwynwen yng Nghlwb Golff Radur am 7.30 p.m.
**Llun, 1 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Hen Ddoliau Pincas'. Sgwrs gan Beryl Williams yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 1 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Cwis dan ofal Peter ac Eleanor Elias Jones yn neuadd Eglwys San Pedr, Dinas Powys, am 7.30 p.m.
**Mercher, 3 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Rhiannon Rees yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Gwener, 5 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Sgwrs ar Mahatma Gandhi gan Glyn Richards, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.15 p.m.
**Llun, 8 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Trefnydd y Mudiad yn trafod datblygiadau o fewn Mudiad Merched y Wawr ac aelodau'r gangen yn siarad ar y testun 'Gorau Cof, Cof Llyfr', yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Mercher, 10 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen y Garth: Siân Aman yn datgelu cyfrinachau Meistres y Gwisgoedd yn Neuadd y Pentref, Pen-tyrch, am 8 p.m.
**Gwener, 12 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan y Parch. John Rowlands (Ficer Eglwys Fair, Yr Eglwys Newydd), yn neuadd Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Gwener, 12 Chwefror**
Cymry'r Wenallt: Cwis dan ofal Idwal Hughes, yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd, Heol Felindra, am 8 p.m.
**Mawrth, 16 Chwefror**
Cymdeithas Hanes Cymru Prifysgol Caerdydd: Darlith gan Huw Ethall ar 'Pennar Davies: Y Dyn a'i Waith' yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.15 p.m. Croeso cynnes i bawb.
**Mawrth, 16 Chwefror**
Cymrodorion y Barri: Noson o adloniant yng nghwmni Helina Price a'i disgyblion, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Mercher, 17 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Alun Guy yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Mercher, 17 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Rhys Morgan yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.
**Gwener, 19 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Geiriadura' gan Bruce Griffiths yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Gwener, 26 Chwefror**
Cymrodorion y Barri: Cinio Gŵyl Ddewi (Gwestai: Dr Siân Rhiannon), yng ngwesty Mount Sorrel am 7.30 p.m. erbyn 8.00 p.m.
**Llun, 1 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyngerdd Gŵyl Ddewi yng nghwmni Côr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mair Robins) yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 1 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Cinio Gŵyl Ddewi yng Nghlwb BP, Sili, am 7.30 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at:*
*Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## Miles a Madog

Yn Chwefror 1999, bydd cwmni Dalier Sylw o Dreganna yn cyflwyno drama Gareth Miles, *Y Madogwys*, yn Waunfawr ger Caernarfon i lansio Gŵyl John Evans, y Cymro a fentrodd o Waunfawr i bellteroedd America ddau gan mlynedd yn ôl i chwilio am yr 'Indiaid Cymreig', disgynyddion Madog. Yna, yn ystod mis Mawrth, bydd *Y Madogwys* yn teithio i ganolfannau cymunedol ledled Cymru. Am fanylion pellach, cysylltwch â Mai Jones (01222) 236650.

## Y Ganrif ar Lafar

Fel rhan o Brosiect Hanes Llafar y Mileniwm, mae'n fwriad gan BBC Cymru wneud cyfres o gyfweliadau 2 awr o hyd, ar hyd a lled Cymru, yn ystod y misoedd nesaf, gyda'r bwriad o greu archif sain hanesyddol a chymdeithasol a gaiff gartref parhaol yn y Llyfrgell Genedlaethol. Maent yn chwilio am drawstoriad o tua 200 o bobl o bob oed a chefndir i'w cyf-weld yn fanwl am eu profiadau o fywyd yn yr ugeinfed ganrif, er mwyn ceisio rhoi'r profiad o fyw yn ystod y can mlynedd diwethaf ar gof a chadw trwy gyfrwng lleisiau'r bobl sydd wedi byw drwyddo. Pe carai'n darllenwyr gynnig eu henwau, neu enwau unigolion eraill, i'w hystyried ar gyfer eu cyf-weld, dylent gysylltu ag Owain Arfon Williams neu Jon Gower, Prosiect Hanes Llafar, Yst. 4020, Y Ganolfan Ddarlledu, BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ (01222-322206).

---

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

---

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Diolch o galon

Yn ystod y misoedd diwethaf derbyniwyd rhoddion oddi wrth y cymdeithasau a'r eglwysi canlynol tuag at gynnal *Y Dinesydd*: **Cymdeithas Tŷ'r Cymry; Eglwys Tabernacl, Yr Ais; Eglwys Ebeneser, Heol Siarl; ac Eglwys Minny Street.** Diolchwn yn gynnes iddynt, a hefyd i'r unigolion a anfonodd gyfraniadau yn yr un cyfnod. Pe gwelech yn dda anfon calennig i'r *Dinesydd*, byddai ein Trysorydd, Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE, wrth ei fodd yn ei dderbyn!

## Cyfarwyddwr Newydd i'r Amgueddfa

Erbyn hyn y mae Cyfarwyddwr newydd wrth y llyw yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, sef Anna Southall, 50 oed, y ferch gyntaf i ddal y swydd. Magwyd Anna Southall ar fferm y tu allan i'r Gelli Gandryll (*Hay*), ac yno y mae ei theulu o hyd. Ymunodd â staff Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn 1996 yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol, a chyn hynny bu'n gweithio yn Oriel Tate yn Llundain. Ymhlith ei diddordebau y mae hen geir, amaethyddiaeth a chadwraeth. Da yw deall iddi ddechrau dysgu Cymraeg pan ddaeth i'w swydd yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol yn 1996 a'i bod yn benderfynol o barhau â'i gwersi er gwaethaf pwysau ei swydd newydd, am ei bod 'yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd yr iaith ym mywyd a diwylliant y genedl'.

## Marw Gunston

Fel 'Gunston' yr adnabu pawb Elwyn Gunston Jones, a fu farw ar 2 Tachwedd. Nôl ar ddiwedd y tridegau yn Nhŷ'r Cymry yn Heol Gordon, roedd Gunston yng nghwmni drama'r Tŷ gydag Eic Davies. Pan oedd ef yn ddarlithydd Cymraeg yn y Coleg Brys i Hyfforddi Athrawon ym Mharc y Mynydd Bychan, Gunston oedd ef i'w fyfyrwyr. Wedi hynny, dilynodd Alun Mathias yn athro'r Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Howardian. Ar ôl cyfnod byr yn Ysgol Uwchradd Tregaron, erbyn 1954 roedd Gunston yn brifathro Ysgol Uwchradd Segontiwm, Caernarfon. Ac yno y bu ef a Dilys ei briod ac Eleri eu merch am bron chwarter canrif nes symud yn ôl i Gaerdydd gan adael Caernarfon yn gymaint o hwntws â phan aethon nhw yno.

Ym 1960 daeth Gunston yn llywydd cenedlaethol UCAC a bu'n aelod o brif bwyllgorau'r undeb am ddegawdau. Deuai ef a Dilys i gynadleddau UCAC a bu'n lladmerydd effeithiol ar ran yr undeb ar amryfal bwyllgorau cenedlaethol. Am flynyddoedd ef oedd cynrychiolydd UCAC ar CBAC a bu'n arholwr allanol y Gymraeg ar gyfer TGAU i'r Cyd-Bwyllgor am gyfnod cyn ac ar ôl ymddeol.

Fel y tystiodd y llythyron a dderbyniodd Dilys oddi wrth ei gydweithwyr yn Segontiwm, ni adawodd Gunston i'w gymwynasau ar faes cenedlaethol lesteirio dim ar ei orchwyl broffesiynol yn brifathro.

Mewn cynifer o gylchoedd, mae'r cof am Gunston yn felys a gwerthfawrogol. Gobeithiwn y bydd hynny'n gysur a diddanwch i Dilys ei briod, ac i Eleri a Jon a'i wyrion Owain ac Alun.

*Iorwerth Morgan*

## Llofruddiaeth yn Coronation Street

Mae nifer o ddilynwyr ffyddlon Coronation Street yn flin iawn i Des Barnes golli ei fywyd ganol mis Tachwedd ac yntau newydd briodi. Gallant roi peth o'r bai am hyn ar Terry Dyddgen-Jones o Riwbina o achos ef oedd yn cyfarwyddo'r penodau a welodd ei dranc!!

## PPS

Llongyfarchiadau i Lorraine a Peter Rogers ar enedigaeth eu mab, Iwan Harri. Mae Lorraine a Peter yn rhedeg y cwmni argraffu PPS yn Station Road, Ystum Taf, a Lorraine sy'n cysodi'r *Dinesydd* o fis i fis.

## Cydymdeimlwn

- â Gaenor Roberts, Manor Court, Yr Eglwys Newydd ar farwolaeth ei mam, Ceridwen Jones ym mis Hydref. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Efengylaidd y Mynydd Bychan cyn y gladdedigaeth ym Machynlleth. Nid oes ond ychydig fisoedd oddi ar gladdu brawd Mrs Ceridwen Jones, y Parch. Arthur Jones, Llanrheadr Dyffryn Clwyd.
- â theulu'r ddiweddar Margaret Ann Black, Y Barri, a fu farw'n ddiweddar yn 84 oed.
- â George Crabbe a'i deulu yn y Bont-faen ar golli ei fam yn 92 oed ganol mis Hydref.
- â Mr a Mrs Ambrose Williams, Y Mynydd Bychan. Collodd Mr Williams ei chwaer ym Mhorthmadog yn ddiweddar.

## Dathlu'r Gymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro

Gŵyr pawb oedd yn bresennol mor llwyddiannus fu 'Parti Ponty' a gynhaliwyd ym Mharc Ynys Angharad yn gynharach eleni. Cymaint fu'r llwyddiant fel bod aelodau Menter Caerdydd am gynnal digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf i ddathlu'r Gymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro. Byddem yn croesawu unrhyw syniadau gan unigolion neu fudiadau'r Brifddinas a'r Fro ac os hoffai unrhyw un chwarae rhan yn y trefniadau cysylltwch â Siân Parry-Jones, Swyddog Iaith Cyngor Sir Bro Morgannwg (01446 700111).

## Gweisg yn cynhyrchu deunydd Cymraeg

Mae Gwasg Addysgol Drake (Caerdydd) wedi cynhyrchu fersiwn Gymraeg o Gynllun Coeden Ddarllen Rhydychen, cynllun poblogaidd mewn ysgolion. Proffwyda'r *Dinesydd* y bydd mynd mawr ar y gyfres boblogaidd hon yn ysgolion Cymraeg Cymru.

Mae Gwasg y Dref Wen, Yr Eglwys Newydd wedi lansio eu cynllun darllen arbennig nhw yn y gobaith y codir safon lythrennedd yng Nghymru. Enw'r cynllun yw *Darllen go iawn gyda llyfrau go iawn.* Os carech gael rhagor o fanylion cysylltwch â Gwilym Boore y Swyddog Marchnata ar 617860.

## Llongyfarchion

- i Alun Michael, Aelod Seneddol De Caerdydd a Phenarth ar gael ei ddewis yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru.
- i Heulwen Davies, Radyr ar ei phriodas â Peter Strathearn o Glasgow.
- i Sioned Guy o Riwbina ar ei dyweddïad â Gordon Harold o Ddulyn.
- i Huw a Nia Jones, Pen-y-lan, ar enedigaeth Iwan Llywelyn ddiwedd Tachwedd, brawd bach i Siôn.

## Yr Ŵyl Ffilmiau

Tipyn o fenter oedd symud yr Ŵyl Ffilmiau i Gaerdydd o Aberystwyth ym mis Tachwedd eleni. Y gobaith oedd y byddai rhai o sêr byd y ffilm yn fwy parod i ddod i'r brifddinas.

Dywed y trefnyddion i'r fenter fod yn llwyddiant mawr ac mai yng Nghaerdydd y bydd cartref yr ŵyl o hyn ymlaen. Dau o'r sêr Prydeinig a ddaeth yno oedd Maureen Lipman a'i gŵr, yr ysgrifennwr sgriptiau Jack Rosenthall. Ymhlith y Cymry Cymraeg oedd Ioan Gruffudd a Nia Roberts (Aberhonddu), sêr *Solomon a Gaenor*. Roedd cymaint o alw am docynnau i'r ffilm honno fel y bu'n rhaid trefnu ail berfformiad, ac mae'r theatr yn dal 500! Caiff y ffilm hon ei rhyddhau ym mis Mawrth.

Rhai o uchafbwyntiau'r ŵyl oedd y ffilm *Tiger Bay* a dangosiad arbennig o *Under Milk Wood* (gyda rhai o sêr y brifddinas yn cymryd rhan). Seilir ffilm *Rancid Aluminium*, sy'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd, ar waith gan awdur o Gaerdydd, James Hawes. Mae Rhys Ifans yn un o sêr y ffilm honno. Mae Lisa Palfrey a Rhys Ifans yn chwarae gyda Meryl Streep yn *Dancing at Luighnasa*, fydd yn cael ei rhyddhau'n gynnar yn y flwyddyn sy'n dod. Daeth yr ŵyl i ben gyda dangos y ffilm Gymraeg *Porc Pei* a gyfarwyddwyd gan Paul Turner.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EBENESER, CAERDYDD



### *Bedydd*

Fore Sul, 8 Tachwedd, bedyddiwyd Meilyr Hughes gan y Gweinidog. Dymunwn bob bendith iddo ef a'i fam, Non.

### *Cwrdd Myfyrwyr*

Roedd oedfa nos Sul, 15 Tachwedd, dan ofal Undeb Cristnogol Prifysgol Caerdydd. Roedd hi'n braf cael croesawu nifer o fyfyrwyr atom i gydaddoli.

### *Martyn Geraint*

Cafwyd oedfa arbennig fore Sul, 22 Tachwedd, pan gawsom y pleser o groesawu Martin Geraint atom i gynnal Oedfa'r Plant. Daeth torf dda iawn ynghyd ac roedd dros ddeugain o blant ifainc yno i glywed Martyn yn rhoi ambell stori ac yn arwain y canu yn ei ffordd gartrefol a chofiadwy ei hun.

### *Casgliad Canolbarth America*

Oherwydd yr anhrefn ddifrifol yn Nicaragua a Honduras yn sgîl corwynt Mitch, penderfynwyd apelio ar fyr rybudd am arian a nwyddau i'w gyrru yno. Llwyddwyd i gasglu oddeutu £250 ynghyd â blancedi a thuniau bwyd.

## Perfformio'r Cyfansoddiadau



Mae Cwmni'r Gadwyn, y cwmni drama o Radur, yn cyflwyno pigion o *Gyfansoddiadau a Beirniadaethau* Eisteddfod Bro Ogwr 1998, ynghyd â detholiad allan o nofelau buddugol yr Ŵyl, ar lwyfannau ar hyd de Cymru y gaeaf hwn. Mae'r rhaglen yn un amrywiol iawn ac yn parhau am tua awr a chwarter. Y rhai sy'n cymryd rhan yw Marian Ifans, Robin Jones, Wyndham Richards, Catherine Edwards a Ffion Harries. Pe baech am eu gwahodd i gynnal y rhaglen yn eich cylch chi, dylech gysylltu â Chyfarwyddwr y Cwmni, Emyr Edwards, 26 Windsor Road, Radur, Caerdydd (01222-843855).

## Cyfarchion o Gasnewydd

Cyfarchion y Tymor a phob dymuniad da i holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* oddi wrth Mr W. John Jones ar ran Eglwys Mynydd Seion (A.), Casnewydd.

## O Saint Hilari i Zimbabwe

Yn ddiweddar bu Carys Whelan, Saint Hilari, ger y Bont-faen, yn cynrychioli Cytûn yng Nghynhadledd Eglwysi'r Byd yn Harare, Zimbabwe. Hi yw llywydd y Mudiad Ecwmenaidd Cenedlaethol yng Nghymru ar hyn o bryd.

## Diddanwch eglwysi


Ar ddechrau mis Tachwedd, daeth aelodau o Eglwys Minny Street i ddiddanu aelodau o Eglwys Dewi Sant, y cyfan yn cael ei ddilyn gan de a danteithion. O dan arweinyddiaeth hwyliog John Albert Evans cafwydd noson oedd wrth fodd pawb.

## Cofio Gwenallt


Daeth Hywel Teifi Edwards i Eglwys y Crwys yn ddiweddar i siarad am Gwenallt (y bardd a pherthynas iddo trwy briodas). Yn ei ddull ffraeth arferol dywedodd nad oedd yn adnabod Gwenallt yn dda yn ystod ei lencyndod er ei fod yn perthyn iddo, ac mai gŵr dieithr iddo oedd pan aeth i Goleg Aberystwyth ond i gyfeillgarwch ddatblygu rhyngddynt pan oedd yn gwneud gwaith ymchwil ar destun a ysgogwyd gan Gwenallt ei hun. Pwysleisiodd pa mor angerddol oedd Gwenallt (y dyn preifat iawn) dros y pethau y credai'n ddwfn ynddynt. Roedd hon yn noson wrth fodd pawb a ddaeth i neuadd y Crwys.

## Medal Syr Thomas

Rhoddir Medal Syr Thomas Parry-Williams yn flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol er clod i gydnabod ac anrhydeddu gwasanaeth gwirfoddol a nodedig a gyflawnwyd dros nifer helaeth o flynyddoedd ymhlith pobl ifainc mewn ardal neu gymdogaeth. Os ydych am enwebu rhywun ar gyfer derbyn y fedal hon yn 1999 dylech gael ffurflen enwebu gan Gyfarwyddwr yr Eisteddfod Genedlaethol, Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF4 5WU, a'i dychwelyd ato erbyn 31 Ionawr 1999.



## Paent, Cerdd a Chartŵn




Paentiwr gyda Chyngor Ynys Môn oedd Owen Williams wrth ei waith bob dydd, ond bardd gwlad wrth reddf, yn barod i daro pin ar bapur i gofnodi unrhyw achlysur, yn anfon ei 'time sheet' i'r Cyngor bob wythnos ar ffurf pennill, ac yn rhoi pleser i laweroedd ar hyd a lled yr ynys a'r tu hwnt trwy gyfrwng ei gerddi cartrefol. Ef yw awdur geiriau'r gân 'Canu mewn Tywyllwch' a genir gan Brenda Edwards ac a glywir yn gyson ar Radio Cymru.

Yn dilyn ei farwolaeth ddwy flynedd yn ôl, penderfynodd y teulu gyhoeddi llyfr o'i gerddi fel teyrnged iddo, ac y mae'r gyfrol honno, *Brwsiad y Peintiwr,* newydd gyrraedd y siopau, a chlawr deniadol iddi wedi'i gynllunio gan un o aelodau'r teulu, yr arlunydd adnabyddus, Jac Jones.

A beth yw cysylltiad hyn oll â Chaerdydd, meddech? Wel, y mae un o blant Owen Williams yn un o drigolion y brifddinas ers blynyddoedd lawer bellach, sef Cen Williams, cartwnydd *Y Dinesydd.* Mae copïau o *Brwsiad y Peintiwr* ar gael gan Siop y Felin, Yr Eglwys Newydd, gan PPS yn Ystum Taf neu drwy ffonio 01222-575439.

# YSGOL GLANTAF

## Deuawd

Mae 'Y Gweithdy' yn Theatr y Sherman wedi bod yn rhedeg ers blynyddoedd bellach, ac wedi mentro gyda phob math o sioeau llwyfan dros y blynyddoedd. Ond eleni oedd y tro cyntaf i ni fentro ysgrifennu sioe ein hunain.

Yn y gorffennol, rydym wedi dibynnu ar aelodau unigol o'r Gweithdy i ddyfeisio a chreu drama gyflawn i tua ugain o bobl. Ond anaml iawn y byddai digon o rannau i bawb. Felly ar ôl chwilio a holi a meddwl am wythnosau, fe benderfynom y byddem yn ceisio ysgrifennu drama ein hunain, gyda phob aelod yn cyfrannu.

Roedd y sesiynau byrfyfyr yn rhai hir, blinedig, a diflas ar adegau, ond buom yn lwcus i gael tîm oedd yn barod i ddyfalbarhau â'r fenter. Fe recordiwyd y sesiynau byrfyfyr yma, a'u golygu, a nawr mae'n bodoli fel sgript gyflawn 45 munud. Roedd y teimlad yn un cynnes a balch o feddwl mai ni oedd biau'r ddrama - ni oedd wedi ei chreu hi! Felly ar ôl misoedd o baratoi, roedd hi'n bryd rhoi yr hyn oedd ar bapur ar lwyfan.

Stori am efeilliaid, Sara a Lisa, yw *Deuawd.* Maent wedi symud gyda'u mam o Lanelli ar ôl ysgariad eu rhieni. Ar ôl dechrau mewn ysgol newydd, mae Sara yn sylweddoli cymaint o siom yw hi iddi hi ei hun ac i'w theulu, a pha mor llwyddiannus a thalentog yw Lisa. Mae'r elfen gref o genfigen a thwyll bersonol yn ychwanegu at gynnwrf y ddrama.

Aeth yr ymarferion yn eu blaen, ac weithiau roedd gofyn i ni fod yna dair gwaith yr wythnos, ac am 8 awr ddydd



Aelodau 'Y Gweithdy'.

Sadwrn! Roedd hi'n broses hir a blinedig, ond roeddem mewn cwmni da oedd yn hwyluso'r gwaith i bawb.

Pan ddaeth yr wythnos fawr, roedd pawb yn llawn cynnwrf yn y gobaith y byddai y sioe yn llwyddiant. Bu raid i ni fod yn y Sherman bob nos yn ystod yr wythnos olaf, weithiau tan un ar ddeg yr hwyr, yn gwneud proses o'r enw 'Tecio', oedd yn golygu bod rhaid plotio'r golau a'r sain.

Fe aeth y sioe'n wefreiddiol, roedd cannoedd o bobl wedi dod! Roedd hynny'n gwneud i ni deimlo'n bwysig, ac ar ôl yr holl waith caled, fe gawsom barti mawr i ddathlu diwedd y sioe. Ar ddiwedd y dydd, fe gerddodd pawb i ffwrdd gyda theimlad balch ein bod wedi cyflawni y fenter, ac wedi llwyddo i greu drama lwyddiannus.

*Leah Elen Jones*

## Ysgol Glantaf yn Eisteddfod Sain Ffagan

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Côr Plant dan 18 oed: | 1af | |
| 2. | Parti Llefaru neu Gyflwyniad Llafar: | 1af | |
| 3. | Unawd Offerynnol: | | |
| | | 1af | Bethan Nia Thomas - telyn |
| | | 2il | Catrin Gwynn Williams - telyn |
| 4. | Unawd | 2il | Rhiannon Michael |
| | alaw werin: | 3ydd | Lowri Jones |
| 5. | Llefaru | 2il | Catrin Mears |
| | 16-25 oed | 3ydd | Elen Mair Thomas |
| 6. | Deuawd | 1af | Siwan Gruffudd a Leah Jones |
| | | 2il | Meilyr Dafydd a Hywel Williams |
| 7. | Unawd | 1af | Meilyr Dafydd |
| | 16-25 oed | 2il | Leah Jones |
| | | 3ydd | Trystan Francis |

## Gêmau Glantaf

Eleni am y tro cyntaf cynhaliwyd Gŵyl Traws Gwlad yng Nglantaf. Roedd y llysoedd i gyd yn cystadlu'n frwd yn erbyn ei gilydd a phawb o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 13 yn rhedeg cyrsiau a baratowyd gan yr Adran Chwaraeon. Gosodwyd athrawon ar hyd a lled y cwrs i sicrhau diogelwch. Roedd yn ddigwyddiad cofiadwy a llwyddiannus a'r llys buddugol, Teilo, yn dathlu ar ddiwedd y dydd.

Ar hyn o bryd mae'r llysoedd yn brwydro am bwyntiau yn y gêmau rhynglysol. Digwydd y rhain bob amser cinio o hyn at y Nadolig. Mae gêmau pêl-rwyd, pêl-fasged, hoci, pêl-droed a rygbi i gyd yn cael eu cynnal. Braidd yn gynnar yw hi ar hyn o bryd i ddarogan pwy fydd yn cipio'r wobr gyntaf. Bydd y rowndiau terfynol yn cael eu chwarae yng Ngerddi Soffia yn ystod Gŵyl Glantaf, ddiwedd Chwefror.

*Miss Catrin Wyn*



## Cerddorfa Plant Prydain Fawr

Llongyfarchiadau i **Alice Reed** a **Steffan Jones** ar gael eu derbyn i Gerddorfa Plant Prydain Fawr. Dyma'r ail flwyddyn i Steffan, sy'n canu'r ffidil, gael ei dderbyn. Telynores yw Alice ac mae hi eisoes wedi ennill clod yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



# YSGOL PLASMAWR

## OPERATION CHRISTMAS CHILD

Roedd disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn ffodus iawn yn ddiweddar oherwydd fe gawsant ymwelydd arbennig iawn - sef y gantores gospel Nia. Mae Nia yn gantores ryngwladol sydd â'i gwreiddiau yng Nghymru. Dros y misoedd diwethaf, mae wedi bod yn teithio ar hyd a lled Prydain i ganu ac i drafod mater sydd yn bwysig iawn iddi, sef "Operation Christmas Child". Gofynnodd i'r plant am gefnogi'r achos wedi iddi ganu a dangos fideo o blant yn derbyn anrhegion. Cafodd y gyngerdd argraff fawr ar y disgyblion. Ar hyn o bryd, mae 350 o blant yn yr ysgol ac fe gasglodd y disgyblion (gyda chefnogaeth eu rhieni) 274 o focsys. Bydd y blychau yma yn cael eu danfon i Kosovo erbyn 25 Rhagfyr. Mae "Ffeil" yn mynd i wneud eitem ar eu rhaglen ynglŷn â'r ymgyrch yma. Maent eisoes wedi trafod yr ymgyrch gyda disgyblion o Flwyddyn 7 ac mi fyddant yn dangos plentyn o Kosovo yn agor bocs sydd wedi ei roi gan un o blant Plasmawr.

Mae'r blychau yn cynnwys teganau, losin a phethau yr ydym ni yn eu cymeryd yn ganiataol fel sebon, past dannedd, papur a phensil. Roedd yn bwysig nad oedd y plant yn rhoi teganau i mewn a fyddai'n atgoffa'r disgyblion o ryfel mewn unrhyw ffordd. Roedd yn braf gweld fideo blentyn yn agor y bocs y llynedd. Agorodd un ferch fach hanrheg o flaen y camera. Cafodd het goch ac ychydig bethau eraill. Dywedodd disgyblion Plasmawr nad oeddyn wedi gweld gwên debyg o'r blaen. Dyma a ysbrydolodd y plant i gasglu cynifer o barseli.

## OOH AH SHOWAB KHAN!

Daeth Cwmni Theatr ARC i Ysgol Plasmawr i berfformio drama am hiliaeth ym Mhrydain. Cafodd y grŵp theatr ei noddi gan Fanc Midland ac fe ddaeth Mr Wyn Jones (Uwch Reolwr Cynorthwyol y Banc) i'r ysgol i weld y perfformiad. Roedd y ddrama yn trafod problem hiliaeth ym myd pêl-droed. Y cwestiwn sylfaenol oedd pam nad oes un chwaraewr pêl-droed Asiaidd ym Mhrydain, er bod nifer o chwaraewyr talentog ar gael? Mae 'Ooh Ah Showab Khan' yn delio â'r anawsterau sy'n wynebu lleiafrifoedd ethnig ym Mhrydain mewn sefyllfaoedd fel chwarae gêm pêl-droed. Yn draddodiadol (ac yn ystrydebol), mae 'r gêm yn cael ei hystyried yn gêm ar gyfer pobl 'wyn'. Mae gan y ddrama neges syml; dylech eich cwestiynu eich hunain, a'r hyn sydd o'ch amgylch. Os nad ydych yn hoffi'r hyn yr ydych yn ei weld, fe ddylech geisio newid y sefyllfa. Gadawodd Blwyddyn 9 y neuadd yn dawel gan feddwl am y neges yma.

## GWEITHGAREDDAU DYDD MERCHER

Ers dechrau'r tymor, rydym wedi dechrau ymgyrch ym Mhlasmawr. Ar brynhawn dydd Mercher, mae'r athrawon yn cynnig awr o weithgareddau neu 'clwb' ar gyfer y disgyblion. Mae'r clybiau yma yn cynnwys pêl-droed, rygbi, 'Robot Wars', coginio a thecstiliau, sboncen, cadw'n heini, drama, radio'r ysgol a chylchgrawn ysgol.

Yn ddiweddar, wedi tymor o brysurdeb mawr, fe wahoddwyd yr athrawon i eistedd i lawr tra bod y clwb coginio yn paratoi cwpanaid o goffi a *meringue* ffrwythau ar eu cyfer. Fel y gallech ddychmygu, mae'r staff yn falch iawn eu bod wedi dysgu'r math yma o grefft i'r disgyblion!

Dros y misoedd nesaf, cewch ragor o wybodaeth am y gweithgareddau yr ydym yn eu cynnig. Os oes gennych ddiddordeb yn y meysydd yma, ac yn credu y gallech hyfforddi disgyblion i ddysgu mwy, ffoniwch Siriol Wilde ym Mhlasmawr.



Y Clwb Coginio wrth eu gwaith


## TAFOD ELÁI

Cafodd yr ysgol lwyddiant ysgubol yng ngŵyl ddrama Tafod Elái eleni. Perfformiodd y disgyblion rannau o *Dan y Wenallt* ac fe gafwyd beirniadaeth gadarnhaol iawn gan y beirniad, sef Gillian Elisa Thomas. Penderfynodd y staff berfformio drama hefyd! Gan fod *Grease* yn ffilm a oedd yn ffefryn gan nifer o'r staff, penderfynwyd gosod y stori yn yr ystafell athrawon a chreu stori serch rhwng prifathro'r ysgol ac un o weithwyr gweinyddol yr ysgol. Enillodd y ddrama y gystadleuaeth am gomedi gorau'r ŵyl a hefyd yr un am ddrama orau'r ŵyl. Mae'r athrawon yn parhau i ddathlu yn yr ysgol. Bydd y ddrama yn cael ei pherfformio i ddisgyblion yr ysgol ar ddiwedd y tymor. Gyda lwc, bydd y cardiau 'Equity' wedi cyrraedd erbyn hynny!

## FFAIR NADOLIG

Ar 27 Tachwedd fe gynhaliwyd Ffair Nadolig gyntaf Ysgol Plasmawr. Roedd yn llwyddiant ysgubol! Cafodd y plant ieuengaf gyfle i gwrdd â Siôn Corn tra bu'r rhieni yn bwyta rhai o grempogau blasus y pennaeth Mr Geraint Rees!

Cynhyrchodd yr Adran Decstiliau hetiau sgïo gwych. Fe werthwyd yr hetiau yma mewn munudau!



Mr Geraint Rees, seren y gegin!

Bu'r rhieni yn brysur iawn yn gwerthu bwydydd i blant ac oedolion. Llwyddodd yr ysgol i godi swm sylweddol o arian. Y gobaith yw y bydd yr ysgol yn medru prynu pethau hanfodol megis bws mini a goleuadau llwyfan yn fuan.

Mae Mr Gareth Hall Williams a Mr Mark Bridgens wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn sefydlu 'Radio'r Ysgol'. Yn ystod y Ffair, bu disgyblion yr ysgol yn diddanu'r rhieni ac ymwelwyr eraill gyda cherddoriaeth Nadolig addas.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

## Newyddion Ysgol Pencae

Paratowyd y gwasanaeth diolchgarwch gan ddisgyblion Blwyddyn 5. Cyflwynwyd siec gan Olwen Morris Jones, ar ran disgyblion Pencae, i Mrs Elenid Jones o Gymorth Cristnogol. Roedd y rhodd er cof am ffrind annwyl inni ym Mhencae, y diweddar Barchedig Meurwyn Williams.

Llanwodd y plant 190 o focsys esgidiau gydag anrhegion i blant amddifad Rwmania. Daeth Alan ac Ann Penrose o 'Gymorth i Rwmania' i'n gwasanaeth boreol i dderbyn ein rhoddion.

Enillwyd tarian Gala Nofio'r Urdd yn y sir gan Adran Iau Ysgol Pencae. Pob hwyl i'r disgyblion hynny sy'n cynrychiolí'r sir yn y rownd derfynol ym Mhenlan, Abertawe.

Braf yw gweld Siriol Dafydd yn y gyfres deledu '*Y Palmant Aur*' bob nos Sul ar S4C.

## Y FARI LWYD YN MYND I'R YSGOL

Y mae ysgol gynradd Gymraeg ddiweddaraf Caerdydd, Ysgol Pwll Coch yn Nhreganna, newydd ennill arian o Uned Loteri Cyngor y Celfyddydau er mwyn gwireddu prosiect celfyddydol uchelgeisiol fydd yn cynnwys pob plentyn yn yr ysgol. Thema'r prosiect yw "traddodiadau'r Nadolig Cymreig" a bu'r plant a'r staff yn gweithio gydag enillydd y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain yn Eisteddfod 1997, Iwan Bala, dawnswraig werin, Dawn Webster, a'r storïwr Michael Harvey.

Bu'r plant yn chwedleua, dawnsio a chreu celf am bythefnos cyfan gan orffen mewn sioe ar 4 Rhagfyr yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy. 'Er mai sioe oedd yn coroni'r prosiect', meddai Anna Roberts, pennaeth yr ysgol, 'y broses o greu oedd canolbwynt yr holl waith a defnyddiwyd hen arferion a chwedlau Cymru, megis y Fari Lwyd, hela'r dryw, a'r calennig fel man cychwyn i waith gwreiddiol gan y plant.'

## Nofelydd ac Almanaciwr

Yng nghyfarfod mis Hydref cafodd aelodau'r Cylch Llyfryddol y fraint o groesawu Marion Eames i'n hannerch ar y testun *"Myfi - ac Arall"*. Soniodd i ddechrau am y gwahaniaethau sy'n bod rhwng nofelydd hanesyddol a hanesydd pur - os oes y fath beth! Nid yw'r nofelydd yn ceisio dysgu hanes, ac nid yw am gynnwys popeth am y cyfnod hanes sydd dan sylw; rhaid iddo ddethol, a cheisio sôn am ddigwyddiadau ac achlysuron sy'n berthnasol i heddiw; ac os bydd am gyfleu moeswers rhaid gwneud hynny heb bregethu. Gall gweld hen furddun godi awydd ynddo i holi - pwy fu'n byw yno, beth oedd eu perthynas â'r ardal, pam symudon nhw oddi yno, beth ddigwyddodd iddyn nhw wedyn, a.y.y.b. - a bydd yr adeilad yn troi'n gefndir i stori.

Rhaid i'r nofelydd hanes wynebu problemau - e.e. sut gall awdur o'r ganrif hon dreiddio i feddylfryd arwr o gyfnod pell yn ôl; pa mor hanfodol yw cywirdeb ffeithiol; pa hawl sydd ganddo i wneud defnydd helaeth o'i ddychymyg neu ddyfeisio digwyddiadau nad oes iddynt sail hanesyddol?

Ond pam dewis y teitl *"Myfi - ac Arall"*? Soniodd Marion am gyd-ddigwyddiadau rhyfedd ac amhosibl eu hesbonio a brofodd pan oedd wrthi'n llunio'i nofelau hanesyddol, nes iddi ddod i gredu nad hi yn unig fu'n gyfrifol am y sgrifennu, bod rhywun neu rywbeth wrth ei phenelin yn ei chynorthwyo ac yn ei hannog i ddal ati.

* * *

Yr Athro Geraint H. Jenkins, Cyfarwyddwr y Ganolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd yn Aberystwyth, oedd ein siaradwr gwadd ym mis Tachwedd, a'i bwnc oedd Thomas Jones yr Almanaciwr (1648-1713). Clywsom fod gan Bob Owen, Croesor, feddwl uchel o'r gwron hwn, a byddai'n mynd mor bell â thaeru y byddai'r Gymraeg wedi marw allan cyn dyddiau ysgolion cylchynol Griffith Jones oni bai am waith Thomas Jones yn gwerthu'i almanaciau a llyfrau Cymraeg ymhob rhan o Gymru. (Bob Owen hefyd biau'r clod bod cynifer o'r almanaciau hyn ar gael yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru heddiw ar ôl iddo ef eu casglu'n ddyfal.)

Unwaith y flwyddyn yr ymddangosai'r almanaciau, cyfres o 32 ohonynt rhwng 1679 a 1712, 48 o dudalennau yn gwerthu am 2 geiniog yr un, a'r cynnwys yn hynod o ddifyr, ac yn dderbyniol iawn gan wŷr a gwragedd o bob dosbarth. Roedd gan T. J. gynrychiolwyr mewn trefi a phentrefi, a nifer o bedleriaid yn gwerthu drosto mewn ffeiriau ar hyd a lled y wlad.

Arllwysai T. J. hanes ei fywyd i bob rhifyn. Roedd yn ddyn hunanbryderus ynglŷn â'i iechyd; dioddefai o bob math o anhwylder a byddai'n cynnwys hysbysebion lliwgar am feddyginiaethau digon anhyfryd. Taerodd mewn un rhifyn mai *"trwy ddirfawr boen"* y llwyddasai i gynhyrchu'r rhifyn hwnnw.

Byddai pob almanac yn proffwydo'r tywydd fisoedd lawer ymlaen llaw, a'r gyfrinach, er mwyn gofalu na fyddai'n llosgi'i fysedd, fyddai peidio â manylu, gan adael y proffwydoliaethau yn benagored amwys. Cynhwysai T. J. hefyd doreth o wybodaeth hanesyddol, briwsion o hanes Cymru, yn ogystal â gwaith beirdd gwlad y cyfnod - yn gywyddau, baledi ac englynion.

Mae'n debyg mai dyn unig, cecrys a chroendenau oedd Thomas Jones, un eiddigeddus iawn o bob almanaciwr arall a feiddiai droedio i'r un maes ag ef. Ond roedd yn bleidiwr pybyr dros y Gymraeg, gan roi'r enw *"yr iaith haeddbarch hon"* arni.

*D. Gwyn Jones*

# NEWYDDION YR URDD






Plant ysgolion Plasmawr a Glantaf yn Alton Towers

## Trip Uwchradd yr Urdd i Alton Towers

Yn ystod cyfnod hanner tymor mis Hydref trefnwyd trip ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7, 8 a 9 Ysgolion Glantaf a Phlasmawr i Alton Towers. Trefnwyd y trip ar y cyd â disgyblion Cwm Rhymni a Gwynllyw. Cafwyd diwrnod gwych ac ymateb da iawn i'r trip, a 76 o blant yn mwynhau yn Alton Towers.





Timau pêl-droed Eglwys Newydd ac Allensbank

## Cystadleuaeth Pêl-droed 5 bob ochr yr Urdd, Caerdydd a'r Fro



Yn ystod mis Tachwedd cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-droed 5 bob ochr yr Urdd, Rhanbarth Caerdydd a'r Fro yng Nghanolfan Hamdden Dwyrain Caerdydd ar gyfer ysgolion cynradd sy'n aelodau o'r Urdd. Cafwyd ymateb da iawn, gydag ysgolion Treganna, Bro Eirwg, Pen-y-garth, Iolo Morganwg, Melin Gruffydd, Coed y Gof, Pencae, Allensbank, Llanisien Fach, Eglwys Wen, Marlborough, Eglwys Newydd a Rhydypennau yn cystadlu. Cyrhaeddodd Ysgol Allensbank ac Ysgol Eglwys Newydd y rownd derfynol ac enillodd Eglwys Newydd y twrnamaint 3-1. Nhw fydd yn mynd ymlaen yn awr i gynrychioli'r Rhanbarth yn y rownd derfynol yn Aberystwyth fis Ebrill.

## Cystadleuaeth Nofio Cynradd yr Urdd, Caerdydd a'r Fro



Cynhaliwyd cystadleuaeth nofio cynradd yr Urdd hefyd yn ystod mis Tachwedd yn Athrofa Chwaraeon Cymru, Caerdydd. Cefnogwyd y gystadleuaeth gan ysgolion Pen-y-garth, Eglwys Wen, St Joseph's, Rhydypennau, Pencae, Melin Gruffydd a'r Wern. Enillodd Ysgol Pencae y darian am yr ysgol a enillodd y mwyaf o rasus yn ystod y bore. Byddant yn awr yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yng nghystadleuaeth genedlaethol yr Urdd yn Abertawe.





Enillwyr tarian gala nofio yr Urdd o Ysgol Pencae

## Ar y gweill

- Cystadleuaeth pêl-rwyd cynradd yr Urdd
- Cystadleuaeth nofio uwchradd yr Urdd
- Trip nofio i'r Aquadome (Blwyddyn 7 ac 8, Blwyddyn 5 a 6)
- Trip Rygbi i Wembley - Cymru v Iwerddon (Blwyddyn 7 ac 8)
- Penwythnos 'hwyl' yng Nglan-llyn (Blwyddyn 9 a 10).

Am ragor o fanylion, cysylltwch â Siân Lewis yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna, Caerdydd CF1 9NT (Ffôn: 236201).

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies



## Rygbi



Geiriau olaf fy llith ddiwethaf oedd: *"Beth fydd i'w ddweud yn y rhifyn nesaf, tybed, wedi i Gymru chwarae De Affrig ac Ariannin?"* a man a man i mi fod yn ddigon dewr a chyfaddef imi broffwydo sgôr o 48 yn erbyn 6 yn Wembli (ond ni ddywedwn y fath beth ar goedd wrth reswm). Cyn yr ornest yn Ystafell y Wasg yn Wembli, rhywbeth tebyg oedd proffwydoliaeth pawb y bûm i'n ymgomio â nhw. Yr oeddem yn bell ohoni, diolch byth, a hyd at 77 munud ugain pwynt yr un oedd hi, yna daeth cais Venter i gwblhau pwysedd aruthrol gan Dde Affrig, a gôl gosb o gic ola'r ornest. 20-28 ac un cais i dri - clodwiw a phawb yn llawen, a chodasai'r wlad o'r pydew. Nid oedd y daith yn ôl i'r hen wlad yn bell y noswaith honno, ond erbyn bore Sul daeth rheswm yn ei ôl; collasid yr ornest, a dyna yn y pen draw yw'r llinyn mesur, onid e?

Sgôr cyntaf y Bociaid oedd y cais cosb anghyfiawn hwnnw ar ôl rhyw hanner awr, ond yr oedd gwelliant mawr i'w weld gyda'r pwyslais ar redeg â'r bêl yn lle ei chicio a rhoi'r meddiant i'r gwrthwynebwyr. Oni allem weld y wawr, o leiaf nid oedd y tywyllwch yn ddudew; yr oedd Llywydd Undeb Cymru wedi ysgrifennu yn rhaglen y dydd ei fod yn *"rhythu i affwys nad oedd modd gweladwy i ddianc ohono"* ar ddiwedd yr ornest honno yn Pretoria pan gollodd Cymru o 96 i 13. Ond dianc a wnaethom, ac mae'n rhaid bod llawer o'r clod am hynny'n ddyledus i'r hyfforddwr newydd, Graham Henry, er nad wyf fi'n cyd-weld â chael rhywun o ben draw'r byd i ddangos i ni sut i ddianc o'r fath affwys.


Byddem ni'n gallu curo Ariannin yn iawn y tro hwn, meddem wrthym ni'n hunain, ac aethom i Bontypridd y nos Fercher ar ôl y Sadwrn mawr hwnnw yn Llundain gan frasgamu'n llawn hyder tuag at y maes ym Mhwll-gwaun i wylio ein Tîm A yn chwarae'r ymwelwyr o'r wlad y gobeithiai Michael D. Jones y gellid creu cartref newydd i'r genedl ynddi. Siom fawr; yr oedd hi'n amlwg yn fuan iawn na ellid ennill, ac fe ymddangosodd gwendidau mawr ymhlith y blaenwyr yn enwedig wrth sgrymio. Daeth dau o dri chais Ariannin oherwydd diffyg yn y sgrym - y cyntaf yn gais cosb a'r ail wedi ein gwthio dros y llinell gais o ryw bedwar metr. Bu cryn sôn wedyn am nerth a gallu sgrymio Ariannin - tybed a ellid eu curo ar y Strade wedi'r cyfan?

Ni fu problem ymhlith yr wyth yn erbyn De Affrig, ond yr oedd hi'n amlwg y byddai gofyn i'n hwyth ddefnyddio'u holl fedrau i sicrhau y câi Robert Howley feddiant da o'r sgrym - a'r lein hefyd. Ond fe'u curwyd, o dri phwynt ar ddeg a minnau wedi dweud cyn yr ornest na fyddai buddugoliaeth o lai nag ugain pwynt yn foddhaol, ac rwyf fi'n dal i gredu nad oedd hi'n ddigon da am iddyn nhw sgorio pedwar cais, dau trwy chwalu sgrym Cymru a chais cosb ar ôl sgrym cyn hanner amser. 26 pwynt i 6 oedd hi cyn y tri chais, ac erbyn yr egwyl un pwynt o fantais oedd gan Gymru; ysgrifennais y byddai hi'n anodd ennill heb sôn am fod ar y blaen o ugain pwynt. Y pryd hynny ni'n cysurwyd gan y canlyniad wythnos ynghynt, a daeth y meddwl am yr affwys a'r fagddu'n ôl imi; yna gwelsom ddau gais rhagorol i roi Cymru ar y blaen o bymtheg pwynt.

Pedwar cais llachar gan Gymru, a phedwar cais gan Ariannin trwy rym sgrymio a hyrddio o'r lein; beth yw'r dyfarniad? Er mwyn ateb yn iawn rhaid siarad â blaenwyr y rheng flaen, ond gan na chefais gyfle i wneud hyn mi fentraf gynnig dau neu dri o bethau. Bu pwyslais y Bwrdd Rhyngwladol dros y blynyddoedd diwethaf yn erbyn sgrymio grymus, gyda'r canlyniad bod y gwledydd yn esgeuluso'r agwedd hon i raddau - pob un, hynny yw, ac eithrio Ariannin. Yr oedd bachwr Ariannin o flaen ei ddau brop ac o'r herwydd yr oedd y rheng flaen yn gallu rhwygo rheng flaen Cymru â'r holl bwysau y tu ôl iddynt. Yn nhîm Cymru yr oedd dau o reng flaen Caerdydd sy'n chwarae yn Lloegr lle nad oes pwyslais ar sgrymio grymus, yn ôl y sôn.

Beth bynnag, bydd yn rhaid sicrhau y gellid dal y sgrym yn sad er mwyn i'r mewnwr a'r blaenwyr rhydd gael sylfaen i ymosod. Bydd Henry'n newid y sefyllfa, mae hi'n siŵr, cyn inni fynd i Gae Murray yn Chwefror, a phwysig cofio ei fod wedi cyrraedd safon uchel dros ben â chwarae'r olwyr. Ni welais Neil Jenkins cystal erioed - yr oedd ei lawgicio a'i basio'n hollol foddhaol, a dylai hi fod yn hawdd sicrhau gwell safon o sgrymio os gall hyfforddwr wella chwarae maswr felly. Gallwn fod yn bur hyderus ym Mhencampwriaeth y Pum Gwlad y tymor hwn.

## Diwedd Pêl-droed Ysgolion?



Mae 'na fwriad gan gyfarwyddwyr Clwb Pêl-droed Caerdydd i ddyrchafu o'r drydedd adran i'r adran gyntaf o fewn pum tymor. Gŵyr pawb sy'n gysylltiedig â'r clwb fod codi i'r uwch gynghrair yn freuddwyd na ellir ei gwireddu oherwydd y gost o filiynau o bunnau, ac er gwaethaf ewyllys da rhai noddwyr, nid yw'r fath arian ar gael. A phan fydd clybiau yn gofyn am filiynau o bunnau am chwaraewyr nad ydynt ond cyffredin, amhosibl yw i'r mwyafrif o glybiau (Caerdydd yn eu plith) dalu'r fath ffigwr.

Un ffordd bwysig ymlaen felly yw i'r clwb geisio datblygu eu chwaraewyr eu hunain ac mae rhyw £400,000 wedi ei nodi gan Gaerdydd ar gyfer hyn dros y pedwar tymor nesaf. Yn ddiweddar apwyntiwyd Colin Pascoe yn Swyddog Datblygu Ieuenctid gyda'r clwb. Mae canolfannau hyfforddi wedi eu sefydlu dros y ddinas a'r tu allan ac mae Cymdeithas Pêl-droed Cymru hefyd wedi ffurfio canolfannau cyffelyb dros Gymru gyfan.

Er hynny, mae mantais enfawr gan glybiau o'r uwch gynghrair - maen nhw wedi derbyn miliwn o bunnau yr un er mwyn ffurfio 'Academi Pêl-droed' yn eu clwb. Mae hyn yn denu chwaraewyr ysgol sy'n fythol o dan chwyddwydr y sgowtiau. Eisoes mae tri chwaraewr, o dan bedair ar ddeg oed, o Gaerdydd wedi ymuno â Leeds a Southampton.

Mae rheolau pendant wrth ymuno â'r academi: ni all chwaraewr bellach chwarae mewn gêm gystadleuol i'w dîm ysgol, tîm y ddinas, na hyd yn oed brofion ar gyfer tîm rhyngwladol, heb ganiatâd yr academi - ac anodd cael caniatâd felly. Y nod yw chwarae rhyw bedair gêm ar hugain dros y tymor i'r academi - a'r academi yn unig.

Mae hyn oll yn fygythiad enfawr i 'bêl-droed ysgolion'. Paham y dylai athro ddatblygu chwaraewr na fedr ei ddefnyddio i'w ysgol neu dîm lleol ar ôl ymuno ag academi? Ac i ychwanegu at hyn oll, pan ffurfiwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol a gorchymyn i athro dreulio o leiaf 1250 o oriau'r flwyddyn mewn cysylltiad â phlant, doedd hyfforddi'r campau (y tu allan i oriau ysgol) ddim yn rhan o'r oriau hyn. O ganlyniad dyna ddiwedd ewyllys da athrawon fu wrthi dros y blynyddoedd yn ddi-dâl ar fore Sadwrn gyda'u timau ysgol. Bellach y cynghreiriau lleol o dan Gymdeithas Pêl-droed De Cymru a gymerodd eu lle.

Hawdd credu felly, o fewn y pum mlynedd nesaf, y bydd 'pêl-droed ysgolion' wedi diflannu'n llwyr.

*Howard Spriggs*

# CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU DROS Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD YNG NGHAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

| DYDDIADAU CASGLIAD ARFEROL | | | DYDDIADAU NEWYDD Y CASGLIADAU | |
|---|---|---|---|---|
| DYDD IAU, RHAGFYR | 24 | → | FEL ARFER DYDD IAU, RHAGFYR | 24 |
| DYDD GWENER, RHAGFYR | 25 | → | DYDD SUL, RHAGFYR | 27 |
| DYDD LLUN, RHAGFYR | 28 | → | DYDD MAWRTH, RHAGFYR | 29 |
| DYDD MAWRTH, RHAGFYR | 29 | → | DYDD MERCHER, RHAGFYR | 30 |
| DYDD MERCHER, RHAGFYR | 30 | → | DYDD IAU, RHAGFYR | 31 |
| DYDD IAU, RHAGFYR | 31 | → | DYDD SADWRN, IONAWR | 2 |
| DYDD GWENER, IONAWR | 1 | → | DYDD SUL, IONAWR | 3 |

Peidiwch â rhoi eich sbwriel allan cyn y noson gynt, ond gwnewch yn siwr ei fod allan cyn 7.15am fore'r casgliad.

Bydd yr holl safleoedd Amwynder Dinesig ar gau Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan heblaw Safle Amwynder Dinesig Wedal Road a fydd ar agor rhwng 10am a 2pm ar Ŵyl San Steffan.

Bydd Lamby Way ar gau i'r cyhoedd ar: Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan, Dydd Llun Gŵyl y Banc a Dydd Calan.

Dewch â'ch coed Nadolig i Wedal Road, Waungron Road, neu Colchester Avenue 4 - 12 Ionawr, 1999.




**- Llinellau Cymorth -**

Glanhau - 524400 • Gwastraff Masnachol - 524444 • Ailgylchu - 524422 • Gwaredu Gwastraff - 524411

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

**2001**

Mae gennyf ddiddordeb mewn ymuno â'r pwyllgorau canlynol (Rhowch ✓)

- Addysg Gorfforol, Cadw'n Heini, Dawnsio Creadigol ❑
- Cae a Phabell ❑
- Celf, Dylunio a Thechnoleg ❑
- Cerdd (lleisiol ac offerynnol) ❑
- Cerdd Dant ❑
- Cyhoeddusrwydd ❑
- Cyllid ❑
- Cymorth Cyntaf ❑
- Dawnsio Gwerin, Canu Actol ❑
- Drama ❑
- Dysgwyr ❑
- Gwyddoniaeth ❑
- Ieuenctid ❑
- Llefaru ❑
- Llenyddiaeth (Barddoniaeth a Rhyddiaith) ❑
- Llety a Chroeso ❑
- Nawdd ❑
- Stiwardio/Trafnidiaeth ❑

Enw: ..........................................

Cyfeiriad: ..........................................

..........................................

..........................................

Côd Post: ..........................................

Cyfeiriad ebost : ..........................................

Rhif ffôn: (gwaith)..........................; (cartref) ..........................

Dychweler y ffurflen cyn gynted ag y bo modd at:

Helen Wynne Daniels,
Trefnydd yr Eisteddfod,
Swyddfa'r Urdd,
Heol Conwy,
Treganna,
Caerdydd, CF1 9NT
Ffôn/Ffacs: 01222 236201
ebost: eist@urddxhands.demon.co.uk

**J. A. HUGHES**
**gyda**
**REES WOOD**
**a TERRY**

JAH

A ydych chi wedi cael
**damwain?**

Efallai y gallwch hawlio
**iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf
**yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

# *Gwasanaeth y Plygain*

**Cynhelir gwasanaeth y Plygain yng Nghapel Penrhiw, Sain Ffagan am 11.30 p.m. Noswyl y Nadolig, Rhagfyr 24ain.**

Parcio ym maes parcio cefn yr amgueddfa - mae'r capel wedi ei oleuo hanner canllath i ffwrdd.

*Croeso cynnes i bawb.*

# GWERSI SGWRSIO YN GYMRAEG

Mae angen gwersi sgwrsio ar ddwy chwaer (10 ac 8) o Gas-bach, Gwent.

Mae ganddynt brofiad o'r iaith eioes.

***Rhif ffôn:***

**01633 680885**

# CYLCH CHWARAE MYNYDD BYCHAN

## Prif Weithiwr Chwarae

**– 18.75 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig.**
**Gradd Cyflog – £6.15 yr awr**

Mae angen gweithiwr chwarae cymwysedig sy'n rhugl yn yr iaith Gymraeg i weithio mewn Clwb Ar Ôl Ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Mynydd Bychan, Maendy, Caerdydd.

Mae'r fenter yn anelu at gychwyn ym mis Ionawr 1999, a bydd yn cynnig gofal ar ôl ysgol i 16 o blant ar y dechrau.

Bydd y Prif Weithiwr Chwarae yn gyfrifol am:

- sicrhau darpariaeth ddiogel, yn symbylu cyfleoedd chwarae o fewn fframwaith cyfleoedd cyfartal
- gyrraedd pob gofynion cyfreithiol fel a nodir yn y rheolau perthnasol
- oruchwilio gweithwyr chwarae cyflogedig a gwirfoddol
- cynnal cofnodio a sustemau gweinyddol ac cyllidol

## Gweithiwr Chwarae

**– 18.75 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig.**
**Gradd Cyflog – £5.35 yr awr**

Bydd angen hefyd Gweithiwr Chwarae Cynorthwyol i'r Clwb uchod. Bydd y Gweithiwr Chwarae Cynorthwyol yn gweithio yn agos gyda'r Prif Weithiwr Chwarae i:

- sicrhau darpariaeth ddiogel, yn symbylu cyfleoedd chwarae o fewn fframwaith cyfleoedd cyfartal
- gyrraedd pob gofynion cyfreithiol fel a nodir yn y rheolau perthnasol
- gynorthwyo y Prif Weithiwr Chwarae er mwyn sicrhau gweithrediad esmwyth i'r Clwb

**Cysylltwch â Chlwb Ar Ôl Ysgol, Ysgol Mynydd Bychan, New Zealand Road, Cathays, Caerdydd.**

